Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun

## Meini Prawf ar gyfer Ymchwiliad

# Cyflwyniad

Mae gennym y pŵer i gynnal ymchwiliadau 'ar ein liwt ein hunain'. Mae hyn yn golygu y gallwn ymchwilio i faterion lle mae gennym sail resymol i amau bod camweinyddu neu fethiannau gwasanaeth eang gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, hyd yn oed os nad ydym wedi derbyn cwyn gan unigolyn.

Gallwn gynnal ymchwiliad ar ein liwt ein hunain mewn dwy ffordd:

- Ymchwiliad annibynnol – ymchwiliad na fydd fel arfer yn ymwneud â chwyn benodol gan unigolyn na pherson penodol.
- Ymestyn ymchwiliad byw – estyniad o ymchwiliad rydym eisoes wedi'i gychwyn i gŵyn benodol.

# Ymchwiliad Annibynnol

1. Dylai fod tystiolaeth ddigonol ar gael er mwyn dangos yr angen i gychwyn ymchwiliad 'ar ei liwt ei hun'.

2. Gall tystiolaeth:

- Awgrymu y bu camweinyddiaeth systemig/ methiant yn y gwasanaeth
- Dangos bod camweinyddu systemig/ methiant yn y gwasanaeth yn bodoli
- Dangos bod potensial ar gyfer camweinyddu systemig / methiant yn y gwasanaeth
- Awgrymu y gall y camweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth a nodwyd fod yn fwy eang a systemig.

3. Gall y dystiolaeth fod oddi wrth:

- Yr achwynydd a/neu'r corff y cwynir amdano
- Ein cofnodion cwynion
- Dyst/tystion
- Ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, sefydliadau'r trydydd sector a thrydydd parti arall

4. Mae'r dystiolaeth yn cael ei hasesu er mwyn sefydlu a yw'r meini prawf i gychwyn ymchwiliad yn cael eu cwrdd, gan gynnwys:

- a yw'r mater o fudd i'r cyhoedd
- a oes amheuaeth rhesymol bod camweinyddu systemig a all achosi unrhyw unigolyn i brofi anghyfiawnder neu galedi
- a yw'r pryderon a nodwyd yn rhai a fyddai'n effeithio ar grwpiau eang o ddinasyddion neu unigolion, yn arbennig felly os ydyn nhw yn fregus neu wedi cael eu hanfanteisio efallai (er enghraifft, unigolyn neu grŵp o unigolion a fyddai'n cael anhawster i wneud cwyn) ac sy'n ymddangos yn debygol o brofi anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater sy'n cael ei ystyried ar gyfer ymchwiliad
- grym y dystiolaeth
- grym perswâd y dystiolaeth.

5. Os ydym yn ystyried bod y meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, bydd ymarfer ymgynghorol er mwyn ceisio cael barn ynglyn â gwerth ymchwilio, neu a yw sefydliadau eraill mewn sefyllfa well i ymchwilio.

## Ymestyn Ymchwiliad Byw

6. Pan rydym eisoes wedi dechrau ymchwiliad i gŵyn a rydym yn dymuno dechrau ymchwiliad ar ein liwt ein hunain ynglŷn â materion sydd â chysylltiad sylweddol â'r mater sydd eisoes yn cael ei ymchwilio, byddwn yn ymestyn ymchwiliad gan ddefnyddio ein pŵer ar ein liwt ein hunain.

7. Gellir cynnal ymchwiliad estynedig lle mae cwyn ynglŷn ag:

- un elfen o wasanaeth, a/neu
- un darparwr gwasanaeth yn gysylltiedig yn agos â digwyddiad posibl arall o fethiant yn y gwasanaeth, a / neu
- darparwr gwasanaeth arall sy'n gysylltiedig.

8. Os yw'r meini prawf uchod yn cael eu cwrdd, bydd darparwr/ darparwyr y gwasanaeth a'r achwynydd yn cael eu hysbysu ynglyn â'r penderfyniad i ymestyn yr ymchwiliad. Bydd y partïon sydd ynghlwm yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau a thystiolaeth fel rhan o'r broses ymchwilio. Os yw'r ymchwiliad estynedig yn ymwneud â gwasanaethau iechyd, bydd yr achwynydd yn cael y cyfle i symud y mater ymlaen o dan reoliadau 'Gweithio i Wella' fel dewis amgen (neu, o 1 Ebrill 2026 ymlaen, rheoliadau 'Gwrando ar Bobl')os ydyn nhw'n dymuno hynny.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales


Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203